CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru

WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

**Cyfarfod Cymdeithas CYSAG au Cymru, yn Siambr y Cyngor, Canolfan Ddinesig Cyngor Abertawe SA1 3SN**
**Dydd Gwener, 9 Mawrth 2018 (10.30am – 3pm)**

***Wales Association of SACREs meeting, at the Council Chamber, Swansea Council Civic Centre SA1 3SN. Friday, 9 March 2018 (10.30am – 3pm)***

DRAFT

**Presenoldeb/*Attendance***

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Paula Webber (PW)<br>Kathy Riddick (KR)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Edward J. Evans (EE)<br>Vicky Thomas (VT)<br>Alice Parry (AP)<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>Vicky Thomas (VT)<br>Rev. Emyr Williams<br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br>Gill Vaisey (GV)<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Helen Gibbon (HG)<br>Christine J. Rees<br><br>**Ceredigion**<br>Lyndon Lloyd MBE (LL)<br><br>**Conwy**<br>Phil Lord (PL)<br><br>**Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Phil Lord (PL) | **Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Phil Lord (PL)<br><br>**Gwynedd**<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire* Sir**<br>Gill Vaisey (GV)<br>Cllr Dr. Louise Brown (LB)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot /*Neath and Port Talbot***<br>Rachel Samuel (RS)<br><br>**Casnewydd / *Newport***<br>Vicky Thomas (VT)<br>Huw Stephens (HS)<br>Sally Northcott (SN)<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br><br>**Powys**<br>John Mitson (JM)<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Paula Webber (PW)<br>Mathew Maidment (MM) | **Abertawe / *Swansea***<br>Alison Lewis (AL)<br>Vicky Thomas (VT)<br>Rachel Bendall (RB)<br>John Meredith (JT)<br>Norma Glass (NG)<br>Claire Foley (CF)<br>Brian Cainen (BC)<br><br>**Torfaen**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br>Paula Webber (PW)<br>Dafydd Trehearn (DT)<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Tania ap Siôn (TaS)<br>Libby Jones (LJ)<br><br>**Sylwedyddion / *Observers***<br>Manon Jones (MJ), Llywodraeth Cymru<br>Rachel Bendall (RB) Drindod Dewi Sant<br><br>**Cyflwynwyr/*Presenters***<br>Rachel Bendall (RB) Drindod Dewi Sant<br>Manon Jones (MJ), Llywodraeth Cymru |

**Cofnodion**

1. **Cyflwyniad a chroeso**

Cyn y cyfarfod bu'r aelodau'n mwynhau perfformiad corawl gan ddisgyblion o Ysgol Gatholig Esgob Vaughan. Diolchodd EE i'r côr gan gydnabod y gwaith caled oedd wedi cael ei wneud i greu perfformiad o safon uchel gan y disgyblion a'r hyfforddwr a oedd wedi'u hysbrydoli.

Croesawyd yr aelodau i siambr y cyngor gan y Maer, y Cynghorydd Phil Downing. Dywedodd fod Abertawe yn ddinas o groeso a noddfa lle mae ffoaduriaid yn cael cynnig cartref. Mae'n dathlu amrywiaeth. Yn y flwyddyn ddiwethaf roedd ef fel Maer wedi mynychu amryw o ddigwyddiadau yn cynnwys dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ac agor mosg newydd yn Abertawe. Adroddodd y Cyng. Downing fod y mosg yn agored i bawb a bod y diwrnod agored wedi cael presenoldeb da. Mae Abertawe yn ddinas lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn cael croeso, waeth beth fo'u crefydd, tarddiad ethnig neu ddiwylliant. Siaradodd y Maer yn gadarnhaol am rôl CCYSAGauC mewn cefnogi athrawon. Dywedodd fod AG yn galluogi dysgu agored, gwrthrychol ac ymchwiliol sy'n helpu dealltwriaeth mewn byd sy'n newid yn gyflym iawn. Roedd y Maer yn ymwybodol o'r newidiadau mawr mewn AG yn cynnwys y meysydd llafur newydd i'r arholiadau a'r cwricwlwm newydd a dywedodd fod gan CCYSAGauC swyddogaeth bwysig yn gwneud synnwyr o'r newidiadau hyn.

Diolchodd EE i'r Cyng. Downing ac agorodd y cyfarfod.

2. **Adfyfyrio tawel**

Darllenodd EE gerdd gan Pastor Niermoller, a ddioddefodd mewn gwersyll crynhoi, ac yna myfyriodd ar ba mor bwysig y mae pob unigolyn a sut mae gan bob unigolyn ran i'w chwarae yn y gymuned.

3. **Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Chris Abbas, Tudor Thomas, Susan Cave, Rheinallt Thomas, Mary Parry, Marilyn Frazer, Alwen Roberts, Bethan James, Nicholas Richter, Sharon Perry-Phillips, Neeta Baicher a Meinir Wyn Loader.

*4.* **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Dydd Gwener, 10 Tachwedd, 2017**

Gofynnodd yr aelodau i newidiadau gael eu gwneud ar dudalen 8 o gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol. Wedi cywiro hyn ac ambell i wall teipio derbyniwyd fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

***Gweithredu: PW i gysylltu â VT i newid cofnodion Tymor yr Hydref***

*5.* **Materion yn codi**

*i. Rheoli'r Hawl i Dynnu Disgyblion yn Ôl o AG*

Dywedodd EE wrth yr aelodau fod y ddogfen wedi cael ei chyhoeddi a'i bod ar gael i'w phrynu. Cadarnhaodd y byddai'r ddogfen hon yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau mewn ysgolion. Hysbysodd GV yr aelodau fod un copi ar gael i bob ysgol yng Nghymru. Dosbarthwyd copïau caled oedd dros ben i aelodau CYSAG. Mae PDF ar gael i aelodau CYSAG a chopi caled i Gyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol. Atgoffodd GV aelodau CCYSAGauC fod hawlfraint ar y ddogfen a'i bod ar werth drwy Amazon neu Books@Press. Dywedodd Gill wrth yr aelodau ei bod wedi cael llawer o adborth cadarnhaol am y ddogfen. Diolchodd Ll eto i Gill Vaisey am ei gwaith ar y ddogfen a dywedodd ei bod hi wedi'i defnyddio'n barod i gefnogi ysgol yn Wrecsam. Cafwyd trafodaeth am dynnu'n ôl o AG. Codwyd pryder gan LJ fod cais wedi dod i dynnu disgybl yn ôl yn rhannol o AG ac yn

benodol o astudio Islam yn unig. Roedd LJ a'r ysgol dan sylw yn poeni y gallai hyn gael ei gyfrif fel achos seiliedig ar hunaniaeth a cheisiwyd cyngor pellach gan Gydlynydd Cydlyniant Cymunedol yr ALl au cyswllt atal yn yr heddlu lleol. Penderfynwyd nad oedd hwn yn achos seiliedig ar hunaniaeth gan nad oedd wedi'i gyfeirio yn erbyn unigolyn. Fodd bynnag, penderfynwyd ei fod yn dal i achosi pryder ac y dylai'r ysgol gadw llygad ar y sefyllfa. Dywedodd GV fod y ddogfen tynnu'n ôl yn argymell y dylai'r awdurdod lleol gael polisi a gweithdrefn i ddelio â'r math hwn o achos.

Awgrymodd LB y dylai fod ymgynghori ar y ddogfen. Cadarnhaodd GV ei bod wedi cael ymgynghoriad eang. Cadarnhaodd GV hefyd fod copïau o'r ddogfen wedi cael eu hanfon at bawb a oedd wedi cyfrannu ati.

*ii. Dyneiddwyr ar GYSAGau a llythyr i Lywodraeth Cymru ar Gylchlythyr 10/94*

Adroddodd EE ei fod ef, fel Cadeirydd CCYSAGauC, wedi anfon llythyr i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddatrys amryfusedd Cylchlythyr 10/94. Darllenodd ateb a dderbyniodd gan Ysgrifennydd y Cabinet, Kirsty Williams, yn cydnabod 'bu sylw cynyddol ar ofynion a llywodraethiant Addoli ar y Cyd, ar rôl ac aelodaeth CYSAGau, ac a yw'r arferion a'r trefniadau presennol yn cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Cydraddoldeb 2010'. Tynnodd Kirsty Williams sylw at y ffaith fod Cylchlythyr 10/94 yn 'ddogfen anstatudol a fwriadwyd i roi canllawiau ar addysgu addysg grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig'. Fodd bynnag, mae hi wedi cyfarwyddo'i swyddogion i adolygu'r maes hwn 'yn cynnwys sylw i'r materion penodol ynghlwm â'r ddeddfwriaeth a pha mor gydnaws y mae'r gofynion presennol â'r ddeddf hawliau dynol'.

Cadarnhawyd yn y cyfarfod y bydd Peter Kennedy yn arwain ar yr adolygiad hwn a bod cyngor cyfreithiol yn cael ei geisio. Bydd Llywodraeth Cymru'n edrych ar hyn yng ngoleuni'r Cwricwlwm Newydd a bydd yn ymgynghori â rhanddeiliaid.

Gofynnodd VT i gopi o'r llythyr gael ei anfon at bob Clerc CYSAG. Awgrymodd hefyd fod angen cael terfyn amser i'r adolygiad. Adroddodd fod cydweithwyr PYCAG wedi trafod hyn ac wedi gofyn i CCYSAGauC ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am i'r cais penodol am gynrychiolaeth o'r Dyneiddwyr ar y Pwyllgor cael ymdriniaeth ar wahân yn hytrach na chael ei glymu i mewn yn yr adolygiad cwricwlwm.

***Gweithredu: EE – i ymateb i'r llythyr gan Kirsty Williams yn codi'r mater for angen i'r pwnc penodol o ran cynrychiolaeth Dyneiddwyr ar GYSAGau gael ymdriniaeth ar wahân i'r adolygid cwricwlwm a bod angen gosod terfyn amser cynharach.***

*iii. Clerc Cofnodion*

Cadarnhaodd EE fod hysbyseb wedi'i anfon i GYSAGau am swydd Clerc Cofnodion. Roedd gohebiaeth arall yn rhoi dyddiad cau o 31 Mawrth wedi'i hanfon hefyd.

Cafwyd trafodaeth am y broses ymgeisio a gwnaed yr awgrym fod y clerc yn cael ei benodi am gyfnod prawf. Dywedodd JM nad swydd yw hon ac na fyddai cytundeb. Cadarnhaodd y byddai'r trefniant yn cael ei wneud yn dra thebyg i'r trefniant cyfieithu. Byddai cydnabyddiaeth yn cael ei thalu. Trafodwyd hefyd a ddylai Clerc y Cofnodion fod yn ddwyieithog. Dywedodd PW, hyd yn oed os yw'r clerc newydd yn ddwyieithog, mae cyfieithu yn waith ar wahân gan y byddai'n cymryd mwy o amser. Tynnwyd sylw at y ffaith y gallai Comisiynydd y Gymraeg ysgrifennu i wrthwynebu gan y dylai unrhyw sefydliad yng

Nghymru fod yn darparu gwasanaeth dwyieithog. Cadarnhaodd LJ fod dwyieithrwydd yn bwysig a'n bod yn cyfathrebu yn y ddwy iaith.

6. **Cyflwyniad PYCAG:** ***Rachel Bendall – Adroddiad Furlong: Beth mae hyn yn golygu i Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) ac AG?***

Adroddodd RB ar y cwrs AGA ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant ac effaith y newidiadau ar y cwricwlwm newydd. Adroddodd fod Adroddiad Furlong yn ymwneud â hyfforddi athrawon yfory. Mae'r meini prawf achredu yn datgan yn glir fod yn rhaid i ddarpariaeth AGA yng Nghymru yn y dyfodol fynnu:

- mwy o rôl i ysgolion (cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar ysgolion i chwarae rôl fwy pwysig mewn hyfforddiant)
- rôl fwy eglur i brifysgolion
- cydberchnogaeth o'r rhaglen AGA rhwng ysgolion a phrifysgolion (bydd ysgolion yn asesu myfyrwyr)
- cyfleoedd strwythuredig i gysylltu dysgu yn yr ysgol ac yn y brifysgol (bydd tiwtoriaid yn gweithio mewn ysgolion ac ysgolion yn mynd i mewn i brifysgolion)
- canoli ymchwil.

http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170310-accreditation-criteria-for-initial-teacher-education-en-v4.pdf

Adroddodd RB fod angen i sefydliadau gyflwyno ceisiadau am achrediad erbyn 1 Rhagfyr 2017. Roedd pum sefydliad wedi gwneud cais i gyflwyno'r cyrsiau. Gwnaed ymweliadau safle i asesu'r adnoddau. Adroddodd RB y bydd y Drindod Dewi Sant yn gwybod y canlyniad erbyn diwedd Mehefin. Os yw'n llwyddiannus, bydd ganddo fyfyriwr, os na, bydd yn symud i ganolfan arall. Dywedodd RB fod gan y Drindod Dewi Sant 21 o lefydd i fyfyrwyr AG a bod Bangor yn hyfforddi wyth, sy'n gwneud uchafswm o 29 bob blwyddyn. Holodd RB a fydd y nifer hwn yn newid wrth i'r cwricwlwm newydd ddod i mewn.

Cafwyd trafodaeth am y trafferthion i recriwtio. Holwyd a fydd yr hyfforddiant yn newid yng ngoleuni'r Cwricwlwm Newydd ac a fydd Dyniaethau'n cael ei ddysgu neu a fydd AG yn dal i fod yn bwnc ar ei ben ei hun.

Dywedodd RB mai'r ddarpariaeth bresennol i AG yw pedair awr y flwyddyn yn unig. Mae hyn yn codi cwestiwn am ddatblygiad proffesiynol i'r sector cynradd ac yn tynnu sylw at y ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer hyfforddiant ychwanegol i AG yn y sector cynradd. Adroddodd RB fod myfyrwyr wedi bod ar ymweliadau lleoliad â'r Ganolfan Fwdhaidd yn Abertawe. Edrychodd aelodau CCYSAGauC ar glipiau fideo o Kirsty Williams yn siarad â myfyrwyr am y Cwricwlwm Newydd. Clywyd y Gweinidog yn dweud y byddai'r newid i'r Cwricwlwm Newydd yn fwy o her i'r sector uwchradd ac mai dyna pam bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n raddol dros nifer o flynyddoedd. Holodd myfyriwr sut byddai'r TGAU yn edrych a dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Cymwysterau Cymru o amgylch y bwrdd ar bob cam o'r ffordd wrth i'r Cwricwlwm Newydd gael ei ddatblygu gan y byddai'n rhaid i'r arholiadau gyd-fynd ag ef.

Soniodd RB am pam mae'r myfyrwyr presennol eisiau bod yn athrawon AG. Roedd y rhesymau'n cynnwys dylanwadu ar fywydau plant; cofio cael eu dysgu gan athrawon a'u hysbrydolodd; mae AG bob amser yn agored a pherthnasol; mae'r pwnc yn ffurfio hunaniaeth; mae'n annog pobl i archwilio'u credoau; mae'n datblygu dinasyddion da, moesol, gyda meddwl agored ac mae'n dysgu goddefgarwch a pharch at eich gilydd.

DRAFT

Cadarnhaodd RB fod cydweithio wedi bod yn digwydd rhwng ysgolion a sefydliadau Addysg Uwch. Ceir cydweithio ar brosiectau peilot, rhwydweithiau a gweithgorau. Dywedodd hefyd fod disgwyl i'r myfyrwyr ddysgu pynciau eraill megis Bagloriaeth Cymru.

Mynegodd VT bryder am nifer yr oriau o hyfforddiant mewn addysg gynradd. Dywedodd fod gan AG le unigryw ar y cwricwlwm ac, felly mae pedair awr o hyfforddiant yn annigonol. Dywedodd y gall camgymeriadau gael eu gwneud wrth ddelio â phynciau sensitif mewn AG. Dywedodd RB fod y pedair awr yn cael eu treulio'n mynd â myfyrwyr drwy'r gofynion cyfreithiol a'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ac nad oes amser i waith cyfoethogi.

Dywedodd VT fod DPP yn broblem enfawr ac mae hi wedi gofyn i hyn gael ei gynnwys yn agenda'r Cyfarfod Cynllunio Dyniaethau nesaf gyda Llywodraeth Cymru. Dywedodd y byddai hyn yn hanfodol i lwyddiant y Cwricwlwm Newydd y mae gan AG le unigryw ynddo.

Dywedodd RB fod ochr bedagogaidd AG yn cael ei dysgu yn y brifysgol, ond y dylai'r arbenigedd ddod oddi wrth yr ysgolion.

Yn ôl LJ, mae'r Comisiwn ar Addysg Grefyddol yn Lloegr yn adrodd mai 3 awr o hyfforddiant a roddir yn Lloegr. Fodd bynnag, un o argymhellion y Comisiwn yw bod isafswm o 12 awr yn cael ei neilltuo i AG.

Holodd HS a oedd mewnbwn y darlithydd yn lleihau. Esboniodd RB fod y symudiad sydd wedi digwydd wedi codi pont rhwng yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol, a'r brifysgol. Dywedodd fod myfyrwyr yn gweld tiwtoriaid yn llai aml a bod mwy o bwysau ar athrawon mewn ysgolion, sydd eisoes yn brysur iawn. Dywedodd HS ei fod ef wedi hyfforddi am 3 blynedd ac roedd yn pryderu fod disgwyl i hyn ddigwydd mewn blwyddyn. Cadarnhaodd RB fod BEd yn dal i fodoli.

Cododd un aelod y pryder mai ychydig iawn o athrawon sydd â chefndir ffydd ac y gallai hyn arwain at gysyniad dryslyd o beth yw Cristnogaeth. Gofynnodd a ddylai fod mwy o gyfle i gael arweinwyr ffydd i gymryd rhan yn yr hyfforddiant. Cadarnhaodd RB fod y Drindod Dewi Sant yn croesawu partneriaethau gyda chymunedau ffydd. Mae'r mewnbwn gan bobl sy'n siarad â myfyrwyr yn dda.

Holodd aelod a ellid gwneud pethau'n fwy unffurf o ran cyflwyno Addysg Grefyddol. Cadarnhaodd LJ fod gennym y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol yn barod, ond nad yw hwn yn seiliedig ar gynnwys a'i fod yn cael ei bennu'n lleol. Ailadroddodd y ffaith fod dull Donaldson yn golygu gwneud partneriaethau a bod mwy o bwyslais ar gredoau craidd Cristnogaeth mewn TGAU. Dywedodd MM yr hoffai ef, fel athro, weld y cymunedau ffydd yn cyfrannu'n fwy. Cadarnhaodd RB fod gan fwyafrif y myfyrwyr ôl-radd radd Astudiaethau Crefyddol neu eu bod wedi gwneud modiwlau ar ryw adeg yn eu gradd. Mae gan rai radd mewn pwnc perthnasol arall. Felly, byddai ganddyn nhw gefndir perthnasol. Atgoffodd PW yr aelodau fod adroddiad interim CoRE yn datgan y dylai CYSAGau gael rôl gynyddol ac awgrymodd y gallai hon gynnwys partneriaeth gryfach rhwng ysgolion a'r cynrychiolwyr ffydd sy'n eistedd ar GYSAGau. Cafwyd y cwestiwn a ddylai AG aros fel pwnc ar wahân oherwydd pe na byddai, roedd yn pryderu y byddai athrawon yn colli eu harbenigedd. Mynegodd un aelod bryder am y plant sy'n cael eu heffeithio gan yr 'arbrawf addysgol' hwn, gan ddweud ei bod yn bosibl nad oedd ganddynt gefndir yn y pwnc neu'n teimlo'n ddigon hyderus i gymryd pynciau arbenigol yn y TGAU. Mynegwyd pryder fod perygl o golli hanfod y pwnc. Dywedodd aelod arall fod disgwyl i athrawon erbyn hyn ddysgu unrhyw bynciau eraill ac y gallai hyn effeithio ar y system addysg drwyddi draw.

Awgrymodd un aelod fod y syniad o gydberchnogaeth yn ardderchog gan yr hoffai'r ysgolion gael cyfrannu at yr hyn sy'n digwydd mewn ymarfer. Dywedodd un aelod fod angen dyddiau hyfforddi

DRAFT

mentoriaid ar y cwrs AGA. Cadarnhaodd RB fod dau yn cael eu cynnal bob blwyddyn a'u bod yn rhedeg rhaglen hyfforddi mentoriaid ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

**7. Cyflwyniad CCYSAGau Cymru*: Dyniaethau yn y Cwricwlwm Newydd i Gymru - Manon Jones***

Dywedodd MJ wrth CCYSAGauC fod ei swyddogaeth yn Llywodraeth Cymru wedi newid a'i bod hi bellach yn gyfrifol am gysondeb dros y chwe Maes Dysgu a Phrofiad.

Cadarnhaodd MJ fod Newyddlen Llywodraeth Cymru wedi cael ei hanfon i bob CYSAG a bod yr adborth wedi bod yn ddefnyddiol iawn ac mai da fyddai derbyn mwy o sylwadau.

Rhoddodd MJ ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn y Cwricwlwm Newydd. Cadarnhaodd y dylai AG fod yn rhan o MDaPh y Dyniaethau ac y bydd yn aros yn ofyniad statudol ar y cwricwlwm o'r dosbarth derbyn. Cadarnhaodd MJ fod Dyniaethau wedi dilyn dull 'Beth sy'n Bwysig' ac mae pwrpas y datganiadau oedd darparu'r cysyniadau allweddol i'w harchwilio yn ystod addysg y dysgwr. Rhannodd enghraifft o un o'r datganiadau a'r rhesymeg y tu ôl iddo. Cadarnhaodd MJ fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith yn y pynciau cysylltiedig a bod CCYSAGauC wedi cyflwyno papur trafod fel rhan o'r broses hon. Roedd cynrychiolwyr CCYSAGauC wedi mynychu gweithdy MDaPh yn Abertawe i gyflwyno'r papur i'r athrawon. Dywedodd MJ y byddai'r Pedwar Diben Craidd wrth wraidd y Cwricwlwm Newydd ac y byddai MDaPh Dyniaethau yn cyfrannu at y rhain. Rhannodd MJ y strwythur a fyddai'n ffurfio MDaPh y Dyniaethau. Bydd hyn yn cynnwys datganiad yn manylu ar sut y mae'r Maes yn cefnogi'r Pedwar Diben; datganiadau 'Beth sy'n Bwysig' a'r rhesymeg y tu ôl iddynt; cyfeiriad at y prif Wybodaeth, Sgiliau a Phrofiadau pwnc a fyddai'n ategu datblygu cwricwlwm ar lefel ysgol; Pynciau, Meysydd a Threfniadau penodol; Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Ehangach. Mae'r strwythur yn manylu ar y Fframwaith Cynnydd; Deilliannau Cyflawniad; Elfennau Trawsgwricwlaidd ac Egwyddorion Arweiniol i helpu i roi Beth sy'n Bwysig ar waith.

Cadarnhaodd MJ nad yw'r Cwricwlwm Newydd yn colli golwg ar y pynciau ond yn ceisio cael agwedd fwy holistig.

Dywedodd MJ y gall fod angen canllawiau pellach ar AG gan ei fod yn ofyniad statudol yn CA4 ac oherwydd lefel leol y pwnc. Felly gallai hyn olygu ystyried darparu Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol.

Holodd VT a yw'r datganiadau 'Beth sy'n Bwysig' wedi newid o'r rheiny sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Dywedodd MJ ei bod yn dal i weithio arnynt a'u bod wedi cael eu diweddaru. Dywedodd y byddant yn cael eu diffinio ymhellach yn y dyfodol oherwydd ei bod yn bwysig dod yn ôl atynt i wneud yn siŵr nad oes dim byd ar goll. Dywedodd LJ fod ymatebion yn dal i gael eu hysgrifennu a gofynnodd a yw gweithgor y dyniaethau'n ystyried yr adborth. Cadarnhaodd MJ fod sylwadau'n bwydo i mewn i'r ffordd y mae'r gweithdai'n cael eu trefnu a bod adborth yn werthfawr gan ei fod yn ffordd o wirio'r hyn sy'n cael ei ddatblygu.

Mynegodd un aelod bryder fod y datganiadau'n glastwreiddio crefydd ac ysbrydolrwydd. Gofynnodd pa ymgynghoriad a fu gyda'r cymunedau ffydd. Pwysleisiodd MJ eto nad yw Llywodraeth Cymru'n dymuno colli dim o ran y pwnc a'r arbenigedd. Hysbysodd Manon Jones CCYSAGauC fod cyfarfod cynllunio i'w gynnal o fewn pythefnos ac y byddai adborth gan GYSAG ar yr agenda. Yn ystod y cyfarfod cynllunio y gobaith oedd y byddent mewn sefyllfa i rannu'r datblygiadau hyd yma. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd o ymgysylltu â ChYSAGau a byddant yn gofyn am farn cynrychiolwyr CCYSAGauC/PYCAG

yn y cyfarfod cynllunio. Gofynnodd MJ beth oedd y ffordd orau i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â ChYSAGau gyda'r datblygiadau ar y cwricwlwm yn symud mor gyflym.

Roedd GV yn pryderu fod MDaPh Dyniaethau wedi symud ymlaen mor gyflym a bod CYSAGau'n cael cais i ymgynghori ar rywbeth sydd wedi newid yn barod. Adroddodd fod hon yn dasg fawr i GYSAGau; maent yn treulio llawer o amser arni ddim ond i weld fod datblygiadau wedi newid. Dywedodd ei fod yn destun pryder gweld newid mawr yn y cwricwlwm yng Nghymru yn cael ei drefnu fel hyn.

Gofynnodd aelod a fyddai adnoddau ar gyfer y cwricwlwm ar gael cyn i'r cwrs newydd ddechrau. Cafwyd trafodaeth wedyn am sut y byddai'r cwricwlwm newydd yn cael ei ariannu gan fod problemau gydag ariannu'r fanyleb TGAU newydd ar hyn o bryd, yn enwedig adnoddau Cymraeg. Cadarnhaodd MJ y byddai tîm penodol yn edrych ar sut bydd adnoddau'n cael eu darparu i'r cwricwlwm newydd.

Gofynnodd VT a fyddai Llywodraeth Cymru yn cylchredeg y papurau diwygiedig newydd. Dywedodd MJ y byddai hyn yn digwydd. Awgrymodd VT y byddai'n ddefnyddiol cynnwys aelod o CCYSAGauC yng nghyfarfodydd MDaPh y Dyniaethau. Roedd MJ yn meddwl fod hwn yn syniad gwerth chweil.

Barn MM oedd bod hyder, arbenigedd a brwdfrydedd yn arwain at addysgu da a'i bryder ef oedd nad yw dysgu y tu allan i'ch arbenigedd yn ysgogi hynny. Ategodd y farn ei bod yn bwysig peidio â cholli'r pynciau unigol. Dywedodd MJ y byddai hi'n ystyried y pwynt hwn, ond ailadroddodd mai'r ysgol fyddai'n penderfynu sut i gyflwyno'r cwricwlwm.

Awgrymodd PJ mai un ffordd y gallai Llywodraeth Cymru ymgynghori â ChYSAGau fyddai drwy gael cyfarfod arbennig ychwanegol o CCYSAGauC. Cadarnhaodd EE y byddai hawl i wneud hyn pe bai angen.

Atgoffwyd MJ gan GV fod arbenigedd proffesiynol ar gael os nad oedd digon o bobl ag arbenigedd mewn AG ar weithgor y Dyniaethau ac y gallai CCYSAGauC helpu.

***Gweithredu: MJ to i anfon y fersiwn ddiweddaraf o ddatganiadau Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau i PW i'w dosbarthu.***

***Ar ôl cinio adroddodd LJ ar ohebiaeth a dderbyniwyd ganddi***

Soniodd LJ am ohebiaeth a gafodd gan y Rhwydwaith Rhyng-ffydd yn hysbysu CCYSAGauC am gyfarfod ar 28 Mawrth a'r cyfarfod i bobl ifanc oedd ar fin digwydd. Mae dogfen canllaw cynhadledd Amrywiaeth Crefydd a Chred y Rhwydwaith i ysgolion yn cael ei ymgynghori arni ac mae'r Rhwydwaith yn gofyn am gyngor ac adborth erbyn 13 Ebrill. Bydd pecyn adnoddau yn mynd allan am ddim i ysgolion.

***Gweithredoedd:***

***i. Y rheiny sydd â diddordeb mewn mynd i gyfarfodydd y Rhwydwaith Rhyng-ffydd i gysylltu â LJ i gael gwybodaeth.***

*ii.* ***LJ i gysylltu â PW ynglŷn â dosbarthu gwybodaeth gan y Rhwydwaith.***

***8.*** **Cyfansoddiad Cymdeithas CYSAGau Cymru**

Mae cyfansoddiad CCYSAGauC wedi cael ei ddiwygio. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn ymgynghori ar hwn ar hyn o bryd. Bydd addasiadau i'r cyfansoddiad yn mynd allan i'r CYSAGau wedyn a bydd pleidlais ar fabwysiadu'r cyfansoddiad yn y cyfarfod blynyddol ar Ynys Môn yn Nhymor yr Haf.

**Gweithredu: rhoi pleidlais ar fabwysiadu'r cyfansoddiad diwygiedig yn y Cyfarfod Blynyddol ar yr agenda**

**9. Diweddariadau:**

i. Diweddariad y Cyngor Addysg Grefyddol: Y Comisiwn Addysg Grefyddol yn Lloegr (CoRE)

Cyflwynwyd papur gan LJ a PW: *CoRE a'i berthnasedd i Gymru: Papur trafod*.

Roedd y Comisiwn wedi gwneud argymhellion cychwynnol ar

1. Hawl cenedlaethol i AG
2. Galw ysgolion i gyfrif am y ddarpariaeth ac ansawdd AG
3. Cynllun cenedlaethol i wella addysgu a dysgu mewn AG
4. Rôl newydd ac estynedig i'r CYSAGau

Awgrymodd LJ a PW y dylai Cymru ystyried y cwestiynau canlynol

1. A yw deilliannau'r adroddiad interim yn berthnasol i Gymru?
2. A yw'r aelodau'n cytuno â'r argymhellion yn yr adroddiad?
3. Beth mae'r aelodau eisiau i Lywodraeth Cymru ei wneud?
4. Pa gamau, os o gwbl, ddylai CCYSAGauC eu cymryd nawr?
5. A ddylai Cymru ddechrau ei chomisiwn ei hun ar AG?

Gofynnodd MJ am gopi digidol o'r papur.
***Gweithredu: PW i anfon copi digidol o'r papur i Manon Jones***

*ii. Estyn – Michelle Gosney*

Cyflwynodd Michelle Gosney ei hun i'r aelodau. Ym mis Ionawr daeth yn brif swyddog Estyn i ysgolion ffydd. Bydd MG yn mynychu CCYSAGauC a Chyfarfodydd Cynllunio Dyniaethau ar ran Estyn. Adroddodd MG fod y cylch gwaith oedd yn edrych ar Hanes a Daearyddiaeth wedi argymell fod angen gwella DPP. Nid oedd MG yn rhan o dîm Estyn sy'n gweithio ar Adolygiad Thematig AG. Dywedodd y byddai Mark Campion yn mynychu cyfarfod haf CCYSAGauC i adrodd yn ôl ar adolygiad thematig AG.
Dywedodd un o'r aelodau nad yw'r consortia'n darparu hyfforddiant DPP yn dilyn yr adroddiad ar y Dyniaethau ac awgrymodd nad yw'r argymelliadau gan Estyn yn cael eu cefnogi gan weithredu pellach. Adroddodd MG nad oes system ar hyn o bryd ar gyfer dilyn argymhellion. Holwyd lle dylai'r swyddogaeth honno fod. Cadarnhawyd mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol ydyw ond gofynnwyd o ble byddai'r arian yn dod.
Adroddodd MG fod Fframwaith newydd Estyn yn edrych ar baratoi, cynllunio a gweithredu Addoli ar y Cyd. Os nad oes sylw mewn adroddiad, yna nid oes pryderon a byddai hynny'n golygu ei fod yn ganolig o ran ansawdd. Gofynnwyd i Estyn ddefnyddio enghreifftiau mewn adroddiadau, felly os yw AG yn cael ei gweld fel cryfder mewn ysgol, bydd enghreifftiau o hynny i'w gweld. O ran Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol bydd Estyn yn sôn am gryfderau ac agweddau o bryder a byddant yn edrych ar ddatblygiad ysbrydol ysgolion. Adroddodd GV y bu trafodaeth yn PYCAG nad yw rhai adroddiadau o dan y fframwaith newydd yn dweud unrhyw beth am Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol. Bydd MG yn adrodd hyn yn ôl i Estyn.
Holodd KR pa ddiffiniad o ysbrydolrwydd fyddai Estyn yn ei ddefnyddio. Cadarnhaodd MG y byddai Estyn yn edrych ar y cyd-destun ehangach, e.e. gallwch gael profiad ysbrydol mewn gwers gelf. Bydd Estyn yn dangos lle mae cyfleoedd am ddatblygiad ysbrydol yn dda a lle mae yna bryderon.

DRAFT

*iii. EfTRE – Phil Lord*

Adroddodd PL wrth CCYSAGauC fod EfTRE yn paratoi at gynhadledd yn Nulyn yn 2019. Y thema fydd *Reconciling Realities in Religious Education*. Yn ôl PL, mae gwledydd eraill yn ymgodymu â phethau y bu'n cwricwlwm ni'n ymgodymu â nhw nifer o flynyddoedd yn ôl ac mae Cymru ar y blaen o ran Addysg Grefyddol. Dywedodd wrth CCYSAGauC fod gan 47 o wledydd Ewropeaidd hael i fod yn aelodau o EfTRE ac mai 25 o wledydd sy'n cael eu cynrycyhioli ar y Bwrdd ar hyn o bryd. Mae EfTRE wrthi'n chwilio am gynrychiolwyr o Ddwyrain Ewrop. Dywedodd PL ei bod yn ddiddorol gweld yr amrywiaeth ar draws Ewrop. Mae'r adroddiadau o'r 25 gwlad ar gael ar wefan EfTRE http://www.eftre.net/

Bu PL ei hun yn gyfrifol am y wefan.

Hysbysodd PL CCYSAGauC y byddai'n ymddiswyddo o'i rôl fel cynrychiolydd EfTRE. Cafwyd trafodaeth ynghylch pwy fyddai'n ei olynu fel cynrychiolydd. Pleidleisiwyd dros GV a hi fydd cynrychiolydd EfTRE.

*iv. AREIAC – Gill Vaisey*

Adroddodd GV y bydd cynhadledd AREIAC yn cael ei chynnal ym Mryste ar 2 a 3 Gorffennaf. Mae croeso i bawb sydd â diddordeb mewn hyrwyddo rhagoriaeth mewn AG i'w mynychu. Mae ffurflenni archebu ar gael gan Gill Vaisey neu gellir eu cael ar wefan AREIAC. Gall unrhyw un sydd â chyfrifoldeb dros gefnogi athrawon ddod yn aelod o AREIAC. Mae gostyngiad o £30 o bris y gynhadledd i aelodau AREIAC. Thema'r gynhadledd eleni yw Adlewyrchu Lluosogrwydd mewn AG a bydd yn para dau ddiwrnod. Bydd yno gydbwysedd rhwng gweithdai a phrif siaradwyr. Mae GV yn mynychu AREIAC fel cynrychiolydd Cymru ac mae PW hefyd newydd ddod yn aelod o AREIAC.

Yng nghyfarfod PYCAG bu'r aelodau'n trafod yr angen am gefnogaeth i athrawon a'r cyfleoedd a allai fod ar gael drwy *Learn Teach Lead RE*. Mae yna bosibilrwydd fod cyfle i gael cyllid sydd ar gael i sefydlu rhwydweithiau AG. Bydd GV a PYCAG yn ymchwilio i hyn ymhellach.

***Gweithredu: PW i ddosbarthu gohebiaeth am gynhadledd AERIAC i Glercod CYSAG i'w anfon ymlaen i ysgolion.***

*v. MAGC - Dafydd Trehearne*

Ar ran MAGC, adroddodd DT fod pot bach o arian ar gael ac nad oes mwy o arian yn dod i mewn oherwydd toriadau'r llywodraeth. Mae MAGC wedi rhoi cymorth ariannol i gyfieithu dogfennau i'r Gymraeg. Fodd bynnag, byddai MAGC yn hoffi cynnig cymorth ehangach na hynny. Cadarnhaodd DT fod y llyfr *Encouraging Religion* wedi cael ei gyhoeddi bellach. Dywedodd nad oedd MAGC am roi'r gorau iddi eto ond bod eu rôl wedi lleihau oherwydd diffyg cyllid.

***10.* Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 13 Medi 2017**

Dosbarthwyd adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith. Dywedodd EE wrth CCYSAGauC na fyddai cofnodion y cyfarfod yn cael eu hanfon nes iddynt gael eu cadarnhau gan y Pwyllgor Gwaith. Gwnaed y penderfyniad hwn oherwydd y bu anghywirdeb yng nghynnwys y cyfarfod a oedd angen ei gywiro cyn i'r cofnodion gael eu gwneud yn gyhoeddus. Gwnaed newidiadau i nodiadau'r Pwyllgor Gwaith a hysbysodd EE CCYSAGauC fod aelodau etholedig yn gallu mynychu CCYSAGauC mewn gwirionedd.

***11.* Dangos a dweud**

Adroddodd Phil Lord wrth CCYSAGauC fod MAGC wedi rhoi cyllid i gyfieithu adnoddau y mae ef wedi'u datblygu, sef Cynllun Gwaith pedair blynedd ar gyfer Addoli ar y Cyd. Mae un o'r blynyddoedd ar gael yn Gymraeg erbyn hyn. Bydd y lleill yn cael eu cyfieithu wrth i'r cyllid gael ei sicrhau. Enwau'r adnoddau yw *Simply Collective Worship*. Mae'r Cynllun Gwaith yn cynnwys cwestiynau a syniadau i fyfyrio arnynt, themâu byrrach a Munud i Feddwl. Mae adnodd 6 wythnos am ddim ar gael ar y wefan https://simplycollectiveworship.co.uk/

**12. Gohebiaeth**

i. Adroddodd GV ar ohebiaeth a dderbyniwyd gan ohebydd o BBC ar-lein. Roedd y gohebydd wedi darllen, ym mhapurau CYSAG Casnewydd a phapurau CCYSAGauC, am gynrychiolaeth Dyneiddwyr ar GYSAGau. Gofynnodd am ymateb gan CCYSAGauC a rhoddodd GV ymateb iddi. Dilynwyd hyn gan erthygl ar BBC ar-lein. Cadarnhaodd EE ei fod wedi darllen yr erthygl a'i fod yn ei hystyried yn un deg a chytbwys. Roedd GV yn cytuno â hyn ynghyd â KR a gafodd ei holi hefyd.

ii. Derbyniwyd gohebiaeth gan Christine Abbas o Bahá'í' Cymru gyda dymuniadau gorau i'r aelodau ar achlysur y Flwyddyn Newydd Bahá'í. Adroddodd PW ei bod wedi mynychu dathliad Deucanmlwyddiant y Bahá'í yn y Senedd ar ran CCYSAGauC. Roedd Rheinallt Thomas a Kathy Riddick yn bresennol yno hefyd. Roedd y digwyddiad wedi'i gynllunio'n dda ac yn cynnig gwybodaeth ac roedd hefyd yn ddathliad ardderchog.

**13. U.F.A.**

i. Ar ran PYCAG, dywedodd GV fod swyddogaethau'r gweithwyr a'r swyddogion yn newid a bod PYCAG wedi trafod y mater hwn ac yn poeni fod gwahaniaeth mawr yn yr amser a neilltuir i swyddogion proffesiynol i GYSAGau. Gofynnodd PYCAG i CCYSAGauC a fyddent yn ystyried ysgrifennu at Awdurdodau Lleol i godi'r mater hwn. Mynegwyd hefyd yr angen i GYSAGau gael cefnogaeth gyson gan swyddog ALl penodol a Chlerc CYSAG. Ategodd HS ei bod yn bwysig sicrhau arfer da a dywedodd fod CCYSAGauC yn ddiolchgar i'r awdurdodau hynny sydd eisoes yn dilyn arfer da. Cadarnhaodd aelod o CCYSGAauC ei bod yn bwysig bod athrawon yn mynychu cyfarfodydd CYSAG a CCYSAGauC. Cytunwyd i ysgrifennu llythyr at bob Cyfarwyddwr ALl / Addysg.

ii. Holodd LB a oedd dogfen CCYASGauC 'Beth sy'n Bwysig mewn AG' a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn mynd i gael ei hymgynghori arni. Cadarnhaodd PW mai dogfen drafod oedd hon a fwriadwyd yn unig ar gyfer athrawon sy'n gweithio ar Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, ac nid dogfen ganllaw. Felly, ni fyddai ymgynghoriad ac mae'n dal i fod yn bapur trafod. Cadarnhaodd MJ y byddai ymgynghori'n digwydd ar ddogfen MdaPh y Dyniaethau a fyddai'n cael ei hysgrifennu o ganlyniad i'r broses.

***14.* Dyddiad y cyfarfodydd nesaf*:***

i. Haf 2018 – Ynys Môn 06/07/2018
ii. Hydref 2019 – Bro Morgannwg (I'w gadarnhau)

Gofynnodd VT a fyddai modd cynnal y cyfarfod ar ryw ddiwrnod heblaw dydd Gwener. Cadarnhawyd y bydd CCYSAGau yn amrywio'r dyddiau er mwyn annog gwell cynrychiolaeth gan athrawon.

Diolchodd EE i bawb am ddod i'r cyfarfod. Diolchwyd hefyd i'r Cyng. Phil Downing, James Craven – Clerc CYSAG Abertawe, Kate Phillips, cynrychiolydd yr ALl ar CYSAG, Vicky Thomas, ymgynghorydd AG i GYSAG Abertawe, aelodau CYSAG o Abertawe a ddaeth i gefnogi, côr Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan a'u hathrawon ynghyd â Gwasanaeth Cerdd Abertawe, a Sarah Gray, a fu'n cyfieithu yn y cyfarfod.